PARTNERIAETH PENSIYNAU CYMRU
CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

DYDDIAD 17 GORFFENNAF 2024

PWNC

FFURFLEN / ARCHWILIAD FLYNYDDOL 2023/24

ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

- **Nodi'r Cynllun Archwilio ar gyfer 2023/24**
- **Derbyn llythyr Archwilio Cymru ynghylch Ffurflen Flynyddol y PPC 2023/24**
- **Cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol Archwiliedig ar gyfer 2023/24**
- **Nodi'r Datganiad o Gyfrifon Heb ei Archwilio ar gyfer 2023/24**

RHESYMAU:

Mae Archwilio Cymru wedi darparu cynllun archwilio ar gyfer y gwaith sydd i'w wneud a archwilio y Ffurflen Flynyddol 2023/24, gan amlinellu'r ffi, y tîm archwilio ac amserlen.

Mae adrannau Datganiadau Cyfrifyddu a Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Ffurflen Flynyddol wedi'u paratoi gan yr Awdurdod Lletya ac mae Adran Archwilio Mewnol Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cynnal Adolygiad Archwilio Mewnol. Mae'r Ffurflen Flynyddol wedi cael ei archwilio gan Archwilio Cymru ac amgaeir eu llythyr. Mae angen i'r Cydbwyllgor Llywodraethu gymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol.

Mae'r Awdurdod Lletya hefyd wedi llunio Datganiad o Gyfrifon i Bartneriaeth Pensiynau Cymru ar gyfer 2023/24. Mae hwn er gwybodaeth yn unig ac nid oes angen iddo gael ei archwilio.

Awdur yr Adroddiad: **Chris Moore**	**Swydd:** Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol **Cyngor Sir Caerfyrddin**	**Rhif Ffôn: 01267 224160** **E-bost:** **CMoore@sirgar.gov.uk**

CRYNODEB GWEITHREDOL
CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

DYDDIAD 17 GORFFENNAF 2024

FFURFLEN / ARCHWILIAD FLYNYDDOL 2023/24

CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Ar gyfer cydbwyllgorau ag incwm a gwariant sy'n is na £2.5 miliwn, rhaid i gyfrifon gael eu paratoi ar ffurf ffurflen flynyddol. Costau Cydlywodraethu Partneriaeth Pensiynau Cymru ar gyfer 2023/24 yw £1,806m.

Caiff yr Ffurflen Flynyddol ei rannu'n adrannau fel a ganlyn:

1. Datganiad Cyfrifyddu 2023/24 – gan gynnwys datganiad o incwm a gwariant / derbynebau a thaliadau a datganiad o falansau
2. Datganiad Llywodraethu Blynyddol
3. Cymeradwyaeth ac ardystiad y pwyllgor
4. Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol / Cadarnhau Archwiliad Mewnol

Mae adrannau 1 a 2 uchod wedi cael eu cwblhau gan yr Awdurdod Lletya yn unol ag arferion dilys fel a nodir yn y Canllaw i Ymarferwyr. Mae adran 4 wedi cael ei chwblhau gan Adran Archwilio Mewnol yr Awdurdod Lletya. Mae'r Ffurflen Flynyddol wedi cael ei harchwilio gan Archwilio Cymru.

Mae'r Awdurdod Lletya hefyd wedi paratoi Datganiad o Gyfrifon i Bartneriaeth Pensiynau Cymru ar gyfer 2023/24. Nid yw'r Datganiad yn ofyniad statudol ac ni fydd yn cael ei archwilio. Mae wedi cael ei baratoi er gwybodaeth yn unig, er mwyn ategu'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y Ffurflen Flynyddol.

ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?	OES

GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldebau **DIM**	Cyfreithiol **OES**	Cyllid **OES**	Materion Rheoli Risg **DIM**	Goblygiadau Staffio **DIM**	Bioamrywiaeth a Newid Hinsawdd **DIM**
Cyfreithiol Cydymffurfiaeth â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.					
Cyllid Cost net gweithgareddau Partneriaeth Pensiynau Cymru oedd £1,806m, sef tâl a gafodd ei ailgodi i'r wyth Cronfa Bensiwn yng Nghymru.					

YMGYNGHORIADAU

Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma.

Adran 100D o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – Mynediad at Wybodaeth **Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:** **MANYLIR AR Y RHAIN ISOD**		
Teitl y Ddogfen	**Cyfeirnod y Ffeil**	**Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld / DOLEN GWEFAN**
Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014		Adran Gwasanaethau Corfforaethol, Neuadd y Sir, Caerfyrddin